**Cyngor Partneriaeth Cymru – 13 Mawrth 2024**

10.30-12.00 trwy Zoom

## Sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd

### Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

2. Nododd y Gweinidog fod cofnodion y cyfarfod blaenorol (8 Tachwedd 2023) wedi cael eu dosbarthu i'r aelodau a gofynnodd a oedd unrhyw sylwadau neu ddiwygiadau, ond ni chafwyd rhai.

3. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau.

4. Cyn dechrau ar brif eitemau'r agenda, rhoddodd y Gweinidog sawl diweddariad ar feysydd allweddol blaenoriaeth i'r aelodau (aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru).

***Siarter Budd-daliadau Cymru***

5. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Siarter Budd-daliadau Cymru, a gymeradwywyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth ym mis Tachwedd 2023, bellach wedi'i lansio'n ffurfiol.

6. Dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp llywio allanol a fyddai'n datblygu cynllun gweithredu i symleiddio Budd-daliadau Cymru erbyn yr Haf eleni. Yn y cyfamser, gellid parhau i wella darpariaeth gwasanaethau yn unol ag ymrwymiad y Siarter.

7. Nododd y Gweinidog hefyd fod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol wedi ymweld â chynghorau yng Ngogledd, De a Gorllewin Cymru fel rhan o lansio'r Siarter ac roedd lefel ymrwymiad y staff sy'n darparu gwasanaethau wedi creu argraff fawr arni.

***Cam-drin mewn Gwleidyddiaeth***

8. Atgoffodd y Gweinidog yr aelodau o'r digwyddiad mynd i'r afael â cham-drin mewn gwleidyddiaeth a gynhaliwyd ganddi ar ddiwedd mis Ionawr. Ei ddiben oedd ymchwilio i'r hyn a oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r mater hwn ar draws pob lefel o lywodraeth yng Nghymru ac roedd amrywiaeth o gynrychiolwyr sydd â buddiant yn y mater hwn yn bresennol.

9. Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC i grynhoi'r  wybodaeth o'r digwyddiad, yn ogystal â ffynonellau eraill o dystiolaeth, yn barod ar gyfer gweithdy yng nghynhadledd CLlLC ym mis Mehefin i nodi

meysydd allweddol ar gyfer gweithredu. Roedd gwaith ar y gweill hefyd ar newid deddfwriaeth fel y byddai gwariant ar ddiogelwch ymgeiswyr yn cael ei eithrio rhag terfynau gwariant ymgeiswyr ar gyfer etholiadau datganoledig.

***Y Gyllideb***

10. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad i'r aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.

11. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei Chyllideb ar gyfer 2024-25 a byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried goblygiadau hyn yn ofalus ar gyfer cynlluniau gwariant a threthiant Cymru. Dywedodd y Gweinidog hefyd mai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o hyd yw gwasanaethau cyhoeddus craidd rheng flaen, a diogelu'r bobl a'r cymunedau mwyaf agored i niwed ledled Cymru.

***Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol***

12. Cyn symud ymlaen i eitem un ar yr agenda, cododd y Gweinidog bapur Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol i'w nodi a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod. Dangosodd y papur bedwar grŵp datgarboneiddio'r panel sy'n cefnogi'r awdurdodau lleol i gyflawni eu hymrwymiadau yng nghynllun Sero Net Cymru - ar draws trafnidiaeth, adeiladau, caffael a defnyddio tir a gofynnodd i Gyngor Partneriaeth Cymru nodi cynnydd y pedwar grŵp.

13. Gofynnodd y papur hefyd i'r aelodau nodi'r drafodaeth ddiweddar a arweiniwyd gan CLlLC ar ddatgarboneiddio pensiynau. Roedd y Gweinidog yn ymwybodol bod digwyddiad dilynol wedi'i gynllunio i helpu i gefnogi'r momentwm a gwahoddodd CLlLC i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

14. Diolchodd y Gweinidog yn ffurfiol i Banel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol am ei waith parhaus ar y maes blaenoriaeth allweddol hwn.

## Eitem 1 ar yr agenda: Neges wedi'i recordio gan Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

15. Y cyfarfod Cyngor Partneriaeth hwn (13 Mawrth 2024) oedd yr un olaf yn ystod cyfnod Prif Weinidog presennol Cymru, Mark Drakeford AS.

16. Yn anffodus, nid oedd y Prif Weinidog yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiadau yn yr Ymchwiliad i Covid, ond fe recordiodd neges fideo ar gyfer yr aelodau yn pwyso a mesur ei gyfnod fel Prif Weinidog a gweithio gyda llywodraeth leol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector drwy gydol ei yrfa.

17. Diolchodd y Prif Weinidog i aelodau'r Cyngor Partneriaeth am eu gwaith parhaus i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus gorau posibl i bobl a chymunedau Cymru.

## Eitem 2 ar yr agenda: Adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

18. Cyflwynodd y Gweinidog eitem dau ar yr agenda ar y Comisiwn annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a sefydlwyd yn yr hydref 2021, ac a gyhoeddodd ei adroddiad terfynol ar 18 Ionawr 2024.

19. Croesawodd y Gweinidog y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad Mick Antoniw AS, i drafod canfyddiadau'r adroddiad a nodi ymateb Llywodraeth Cymru iddo.

20. Roedd diweddariad y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried a chroesawu adroddiad y Comisiwn a'i argymhellion. Roedd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad wedi'i hamserlennu yn y Senedd ar gyfer 19 Mawrth 2024.
- Roedd 10 o argymhellion yn yr adroddiad. Nod y tri cyntaf oedd cryfhau democratiaeth ac ymgysylltiad dinesig yng Nghymru. Roedd y saith arall yn ymwneud â gweithredu'r setliad datganoli.
- Ni wnaeth y Comisiwn unrhyw argymhellion ynghylch modelau posibl yn y dyfodol ar gyfer llywodraethu Cymru. Yn hytrach, fe wnaethant ystyried yr opsiynau o ddatganoli pellach, Teyrnas Unedig ffederal ac annibyniaeth i Gymru yn erbyn set o feini prawf ac yn erbyn y setliad presennol.
- Canfu'r Comisiwn y byddai pob opsiwn yn hyfyw, ond bod ganddynt gyfleoedd, buddion, risgiau a heriau gwahanol ac roedd yn teimlo y byddai sgwrs genedlaethol am sut y dylid bwrw ymlaen o fudd.

21. Tynnodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad sylw hefyd at y pwyntiau yn yr adroddiad a oedd yn bwysig yn ei farn ef. Roedd y rhain yn ymwneud ag arloesi democrataidd, y tensiynau mewnol cynyddol, a phwysigrwydd sefydlu egwyddorion sy'n ymwneud â diben y llywodraeth ar wahanol lefelau. Nododd hefyd y cyfeiriad yn yr adroddiad at gysylltiadau rhynglywodraethol a materion cyfiawnder a phlismona, gan nodi bod y Comisiwn wedi argymell hefyd y dylai Llywodraeth y DU ddileu rhai cyfyngiadau ar gyllideb Llywodraeth Cymru, yn enwedig lle'r oedd goblygiadau economaidd. Nododd yr adroddiad faterion mewn perthynas â hyn ynghylch ynni a'r gwasanaeth rheilffyrdd.

22. Daeth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad i ben trwy bwysleisio'r angen i wella democratiaeth ac i rymuso pobl a chymunedau i ymgysylltu'n well â'r llywodraeth a chymdeithas yng Nghymru.

23. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan aelodau:

- Croesawodd y Cynghorydd Andrew Morgan yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad. Roedd yn teimlo ei bod yn bwysig bod gan gymunedau lleol, yn ogystal â llywodraeth genedlaethol a lleol, bwerau ac na ddylid ystyried bod llywodraeth leol yn ddim byd mwy na changen gyflawni i Lywodraeth Cymru. Nododd y Cynghorydd Morgan hefyd ei bod yn amlwg yn ystod pandemig Covid fod yr awdurdodau lleol yn gysylltiedig â'u cymunedau ac wedi datblygu nifer o gysylltiadau da, yn enwedig â'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector a grwpiau ffydd, a'i bod yn bwysig parhau i adeiladu ar y rhain.
- Roedd y Canon Aled Edwards yn teimlo bod yr adroddiad yn hynod o bwysig ac yn llwyfan i fynd â Chymru i le gwell.
- Roedd Mike Theodoulou yn teimlo ei bod yn bwysig bod rhaid trafod datganoli pellach i Gymru law yn llaw â thrafodaeth ar ddatganoli pellach yng Nghymru. Diolchodd hefyd i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad am greu grŵp gorchwyl ar ddiffyg democrataidd mewn cynghorau tref a chymuned.
- Holodd y Cynghorydd James Gibson-Watts am lefel y sgyrsiau a oedd yn cael eu cynnal ymhlith pleidiau gwleidyddol ar lefel llywodraeth y DU gan ei fod yn teimlo eu bod yn rhan bwysig o fwrw ymlaen â'r agenda hon.

24. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn ddiddorol dysgu safbwyntiau Cyd-gadeiryddion y Comisiwn o ran dwyn ynghyd safbwyntiau pleidiau gwleidyddol gwahanol a hefyd safbwyntiau ehangach er mwyn dod o hyd i dir cyffredin ar yr agenda a rennir. Dywedodd hefyd wrth yr aelodau ei bod yn awyddus i symud tuag at ddull gweithredu pedair gwlad gyda chyflafareddu annibynnol ar y fformiwla gyllidol. Roedd yn teimlo pwysigrwydd datganoli wrth alluogi pobl ar y lefelau cywir i gyflwyno cysylltiadau â'r uchelgais i symud y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i sylfaen fwy ffurfiol.

25. Croesawodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad y sylwadau a godwyd gan yr aelodau a'r Cadeirydd ac roedd yn cytuno â phob un o'r pwyntiau a godwyd.

## Eitem 3 ar yr agenda: Trafodaeth ar Bwysau'r Gaeaf

26. Cyflwynodd y Gweinidog y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS, a Nick Wood, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, i'r cyfarfod i arwain trafodaeth ar Bwysau'r Gaeaf, yn unol â chais gan CLlLC.

27. Dechreuodd Nick Wood drwy roi cyflwyniad ar rai o bwysau penodol y gaeaf o safbwynt iechyd. Roedd y cyflwyniad yn rhoi trosolwg a chipolwg ar y canlynol:
    - blaenoriaethau cyn y Gaeaf a'r camau a gymerwyd
        - Y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng
        - cynllunio ar gyfer cynnydd sylweddol yn y galw
        - canllawiau i'r GIG
    - Pwysigrwydd cynllunio cadarn ar draws y system
    - Risgiau cydamserol

- Cyfraddau brechu yn achos yr ymgyrch frechu COVID-19 gyfredol yng Nghymru yn achos grwpiau cymwys o'r boblogaeth.
- Senarios COVID-19 wedi'u modelu o'i gymharu â data gwirioneddol (derbyniadau dyddiol i ysbytai)
- Senarios ffliw yn ystod y gaeaf o'i gymharu â data gwirioneddol (derbyniadau wythnosol i'r ysbyty)

28. Dechreuodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol (y Dirprwy Weinidog) ei diweddariad drwy roi teyrnged i ymrwymiad parhaus a gwaith caled yr holl bartneriaid cyflawni ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y misoedd mwyaf heriol a welwyd yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys yr ymdrech gydweithredol sydd wedi'i buddsoddi mewn sicrhau darpariaeth data a thystiolaeth fwy cadarn i hwyluso cynllunio ac ymateb gwell yn y system, yn enwedig yr adroddiadau cadarnhau ym maes gofal cymdeithasol a set ddata oedi yn achos llwybrau gofal.

29. Atgoffodd y Dirprwy Weinidog yr aelodau fod y Pwyllgor Gweithredu Gofal wedi cael ei adfer yn ystod y Gaeaf a chadarnhaodd mai'r tair prif flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod oedd: lleihau oedi yn achos llwybrau gofal oherwydd asesiadau; cynyddu capasiti nyrsio cymunedol; a chynyddu'r cynnig gofal cymunedol gwell, gan gynnwys cynllunio gofal ymlaen llaw ar gyfer pobl sydd â mwy o risg a chymhlethdod.

30. Nododd y Dirprwy Weinidog hefyd y gwaith yr oedd y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd CLlLC, a Chris Llewelyn, Prif Weithredwr CLlLC, wedi'i gefnogi mewn perthynas â gwella oedi yn achos asesu. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod y gwaith cydweithredol a wnaed i ddatblygu set ddata gadarn ar gyfer Oedi yn achos Llwybrau Gofal wedi hwyluso golwg llawer cliriach o oedi yn y system, gan alluogi gweithredu wedi'i dargedu ar y cyd.

31. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw hefyd at y datblygiadau canlynol:
    - Gostyngiad o 23% yn nifer y llwybrau gofal sy'n cael eu gohirio oherwydd asesiadau
    - Roedd cynnydd o 76% yng ngallu Aseswyr Dibynadwy yn newid cadarnhaol, tra'n nodi'r angen i wella ymhellach.
    - Roedd gwaith a wnaed i sefydlu adroddiadau cadarnhau misol yn rhoi cipolwg cliriach ar bwysau a risgiau'r system.
    - Ers mis Tachwedd 2023 mae nifer y bobl sy'n aros am ofal preswyl a gofal cartref wedi gostwng. Mae nifer y bobl sy'n aros i dderbyn ailalluogi hefyd wedi gostwng, gyda'r rhan fwyaf o bobl yn ei dderbyn o fewn pythefnos.

32. Daeth y Dirprwy Weinidog i ben drwy ddiolch i'r aelodau am eu hymdrechion parhaus a'u hannog i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid mewn partneriaeth i sicrhau y gellir cefnogi pobl i fyw'n dda gartref mor hir â phosibl.

33. Codwyd y pwyntiau allweddol canlynol gan aelodau:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Steve Hunt at fanteision y system o gyllid ychwanegol ar gyfer gofal awdurdodau lleol ac roedd am ddeall pa bwysau ychwanegol a oedd yn cael eu creu i'r system o ganlyniad i Covid hir.
- Cydnabu'r Cynghorydd Andrew Morgan a'r Cynghorydd Huw David waith y Pwyllgor Gweithredu Gofal a manteision archwiliadau dwfn o oedi yn achos llwybrau gofal. Nodwyd yr angen am gylch 12 mis o gynllunio ar gyfer y gaeaf, gan adeiladu ar waith y Pwyllgor Gweithredu Gofal yn ogystal â galw am fuddsoddiad pellach i gynyddu capasiti cymunedol.
- Holodd y Cynghorydd James Gibson-Watts am y gwaith i wella galluoedd diagnostig mewn gofal sylfaenol i gadw profion diagnostig y tu allan i'r ysbyty, yn enwedig mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, ac i'w cynnal mewn meddygfeydd. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion o natur wledig / arwahanrwydd daearyddol.

34. Cydnabu Nick Wood y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â chynllunio drwy gydol y flwyddyn a chyfeiriodd at ganllawiau cynllunio a fforymau cydnerthedd sydd wedi'u datblygu i helpu gyda hyn. Nododd hefyd fod cynllun diagnostig cenedlaethol a hefyd fuddsoddiad mewn cyfarpar diagnostig ar waith ond roedd yn cydnabod yr angen i wneud mwy mewn perthynas â diagnosteg leol a chanolfannau diagnostig.

35. Cytunodd y Dirprwy Weinidog â'r pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r dull gweithredu ar gyfer y Pwyllgor Gweithredu Gofal, a phwysigrwydd cynnal cydweithio a buddsoddi.

## Sylwadau i gloi

36. Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau am fod yn bresennol ac am eu cyfraniadau at y cyfarfod a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 8 Gorffennaf 2024.